**Cofnodion Cyfarfod llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Dydd Mercher, 14 Hydref 2020 am 6.30yh o'r gloch ar Zoom. (Dechreuodd y cyfarfod am 6.33 fel bod pawb wedi gallu ymuno)**

**Presennol** Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Rhys Thomas (Dirprwy) Roy Tickle, Catherine Jones, Gaynor Morgan Rees, Alyn Ashworth, Glenn Swingler, Rob Parkes, Dyfrig Berry, Philip Stevens, Lara Pritchard, Irene Williams & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Clerc y Dref a Carys Jones (Cynorthwyydd Dinesig)

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Arsylwi :** Cynghorydd Gwyneth Kensler & Pauline Edwards

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyngor llawn ym mis Hydref

**235 Datganiad Diddordeb Personol: Dim**

**236 Cadarnhau Cofnodion**

Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 23 Medi 2020. (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd hwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

**237 Materion yn codi:**

**237.1** Cyngor Tref Dinbych - Gwefan wedi ei uwchraddio, yn fyw - Nodwyd, cynghorodd y Cyng Dyfrig Berry os oedd unrhyw un hefo adborth i adel iddo wybod.

**237.2** Diweddariad ynglŷn â thaliad tan gwyllt - Penderfynodd y Cynghorwyr Tref i ofyn am y siec yn ôl fel yr oedd Emma wedi cynnig yn ei e-bost.

**238 Coronofirws.**

I dderbyn diweddariadau gan y llywodraeth, ULIC, SLCC, NALC a CSDd mewn perthynas â'u trefniadau wrth gefn/diweddariad ac argymhellion arfaethedig. (wedi'i gylchredeg eisoes os yw'n berthnasol.)

**239 Gohebiaeth a dderbyniwyd**

**239.1** Ebost gan Gyng Catherine Jones ynglŷn â chael 2 hysbysfwrdd - 1 yn Ninbych uchaf ac 1 yn Ninbych isaf. Trafododd y cynghorwyr tref hyn a chytunwyd y byddent o fudd i'r cyhoedd. Gofynnwyd i'r Clerc y dref edrych ar yr opsiynau sydd ar gael.

**239.2** Ymateb Gweithredu Cymunedol - Nodwyd hyn.

**239.3** Cymorth Cynllunio Cymru - Hyfforddiant ar lein - Roedd y cynghorwyr tref eisiau mynegi diddordeb a gofyn am wybodaeth bellach ynghlyn ar agwedd prisio.

**239.4** Nawdd symiau cymudol mannau agored 2020 - Nodwyd a chytunwyd y dylai'r cynghorwyr tref anfon y wybodaeth ymlaen i'r holl grwpiau a chymdeithasau y maent yn ymwneud a. Gofynnodd Clerc y dref am ragor o wybodaeth gan y Cynghorwyr Rhys Thomas a Catherine Jones ynghylch y symiau cymodol ardal cerdded cwn.

**239.5** Cynrychiolydd cynghorau cymuned ar fwrdd gwasanaethau cyhoeddus Conwy/Sir Ddinbych - Trafodwyd hyn o'r blaen pan dderbyniwyd y manylion gan Gyngor Sir Ddinbych. Cytunwyd y byddai Nigel Acott o Gyngor Tref Prestatyn yn cynrychioli Sir Ddinbych.

**239.6** CLG wedi ei gwblhau hefo Clwyd Pension - Nodwyd hyn.

**239.7** Siarter rhwng y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a CSDd - Cytunodd y cynghorwyr tref eu bod yn hapus hefo'r manylion diwygiedig a nodwyd hyn.

**239.8** Bodfari Amgylcheddol - diweddariad ynglŷn â chwistrellu chwyn - Dywedodd clerc y dref fod materion yn ymwneud a'r cyhoedd yn mynd i mewn tra bod y gwaith yn

mynd ymlaen felly darparwyd arwyddion yn dweud bod yr ardd ar gau. Dywedodd clerc y dref y derbyniwyd hysbysiad o ddifrod i ymyl y ffynnon a bydd ymweliad safle yn digwydd at Hydref 15.

**239.9** Colli llais Colli Bywyd - HGC - Nodwyd hyn

**239.10** Buddion cymunedol datblygiad Tan y Sgubor - Bydd y gweithgor Cynllunio i'r dyfodol yn ymchwilio ar hyn ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod mis Tachwedd.

**239.11** Gweithdai datblygu cymunedol Sir Ddinbych - Gofynnodd y Cynghorwyr Tref i'r clerc y fref ofyn pa weithdai eraill y maent wedi cynnal ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod mis Tachwedd.

**239.12** Helpu Cynghorau i ddarparu mynediad gwell i'r gymuned fyddar - Nodwyd hyn a gofynnwyd i'r grŵp cynllunio'r dyfodol edrych ar opsiynau ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod mis Tachwedd. Bydd Clerc y dref hefyd yn cysylltu i gael mwy o wybodaeth.

**239.13** Diweddariad arwydd twristiaid brown A55 - Nodwyd hyn

**239.14** Adroddiad arolygu misol gardd Dr Evan Pirece - Nodwyd a chytunwyd

**240 Cyllid**

**240.1 Taliadau**

**240.1.1** I nodi taliadau mis Hydref - Nodwyd

| | | |
|---|---|---|
| 1)Jones & Graham, Cyflog Mis Hydref<br>(Rhif Siec 007186) | - | £2,848.09 |
| 2) Jones & Graham, Hydref HMRC<br>(Rhif Siec 007188) | - | £926.49 |
| 3) Jones & Graham, Pension Hydref<br>(Rhif Siec 007187) | - | £915.02 |
| 4) Paul Liversidge, Cynnal a chadw Medi<br>(Rhif Siec 007189) | - | £170.00 |
| 5) Catalyst, Teleffoni Awst<br>(Rhif Siec 007190) | - | £29.98 |
| 6) Catalyst, Awst wrthgefn<br>(Rhif Siec 007191) | - | £4.84 |
| 7) Grenke, Llungopïwr 01/10/20-31/12/20<br>(Rhif Siec 007192) | - | £189.86 |
| 8) J Barlow, Ad-daliad Zoom Medi<br>(Rhif Siec 007193) | - | £14.39 |
| 9)Scottish Power, Gardd Dr E.P. 03/06/20-02/09/20<br>(Rhif Siec 007194) | - | £62.12 |

**Cyfanswm - £5160.79**

Gadawodd y Cyng Catherine Jones y cyfarfod am 7.21yh a dychwelodd am 7.25yh oherwydd materion technolegol.

**240.1.1** Taliad sy'n gofyn am awdurdodiad:

**240.1.1.1** LITE - Goleuadau Stryd y Dyffryn £2448.00
Cytunwyd y Cynghorwyr Tref
(Rhif Siec 007196)

**240.2 Adroddiadau cyllid.** Nodwyd bod adroddiadau cyllid Gorffennaf ac Awst yn cynnwys holl daliadau a derbynebau a dderbyniwyd/a gyhoeddwyd. Dywedodd clerc y dref hefyd y byddai yn cael hyfforddiant ar yr adroddiadau yn fuan gan Scribe.

**240.3** **Cais am Gymorth** - Relate Cymru
S137, £100.00
(Rhif Siec 007195)

**240.4 Llythyr o ddiolch gan Glwb Pêl Droed Dinbych am dderbyn cymorth o £1000.00 - Nodwyd**

**240.5 Cyngor Tref Dinbych I ddilyn egwyddorion sylfaenol y llyfr gwyrdd.**
Trafodwyd hyn ac roedd y Cynghorwyr eisiau rhagor o wybodaeth a gofynnwyd i weld y llyfr. Ni does un i gael ond mae yn bosib ei lawrwytho a gellir pob cynghorydd gael golwg a thrafodir yng nghyfarfod mis Tachwedd.

**240.6** **Dyfynbris**
**240.6.1** CSDd diweddaru dyfynbris Goleuadau Nadolig - Cytunwyd hyn
**240.6.2** Coed Nadolig - Peter Spencer - Cytunwyd hyn

Gadawodd y Cyng Glenn Swingler y cyfarfod am 7.40yh.

**241 Cynllunio**

**241.1** 01/2020/0502
Abbey Court, Dinbych
Codi estyniad i ochr annedd.

Dim gwrthwynebiad

..........................................................................................................................

**241.2** 01/2020/0626
26 Hilary Close, Dinbych
Codi estyniad ac addasiadau i annedd.

Dim gwrthwynebiad

..........................................................................................................................

**241.3** 01/2020/0684
Ysbyty Cymunedol Dinbych
Dymchwel strwythurau presennol, codi cyntedd dan do a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiad

..........................................................................................................................

**242 Sedd Wag.**

**242.1** Dinbych Isaf - Dyddiad Cau 20.10.2020. Nodwyd hyn
**242.2** Dinbych Uchaf - Dyddiad cau hefo CSDd 14.10.2020 - Nodwyd hyn

**243 Cyfarfod Blynyddol**

**243.1** Enwebiad y Maer/Dirprwy Faer Rhagfyr 2020-Mai 2021

Maer - Enwebodd y Cyng Catherine Jones y Cyng Gaynor Wood-Tickle i aros yn y swydd tan Fis Mai. Eiliwyd hyn gan y Cyng Rhys Thomas. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau arall. Derbyniodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle y cynnig.
Dirprwy - Enwebodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle y Cyng Rhys Thomas i aros yn y swydd tan Fis Mai. Eiliwyd hyn gan y Cyng Alyn Ashworth. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau arall. Derbyniodd y Cyng Rhys Thomas y cynnig.

**243.2** Derbyn y Cynllun Lles - Cytunwyd a nodwyd. Bydd y ddogfen nawr yn cael ei yrru ymlaen i gael ei gyfieithu fel y gellir ei chyhoeddi yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Rhagfyr.

**244 Diweddariad Digwyddiadau**
Dywedodd y Cyng Catherine Jones fod y digwyddiad Sul y Cofio wedi'i ganslo oherwydd cyfyngiadau Covid19. Bydd datganiad i'r wasg a bydd posteri yn cael eu harddangos yn rhoi gwybod am hyn. Mae'r Lleng Prydeinig yn gofyn i'r cyhoedd sefyll ar eu stepen drws am 11.00yb ac ymuno mewn 2 funud o ddistawrwydd. Bydd y Maer yn gosod torch, bydd hwn yn cael ei recordio a dangos ar Facebook.

**245 Adroddiad blynyddol draft panel annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth ariannol - Chwefror 2021**
Dywedodd Clerc y dref y bod y manylion yr run peth a'r llynedd. Nid oedd unrhyw adborth neu wrthwynebiad gan y cynghorwyr tref.

**246 Ymgynghoriad Cerflun HM Stanley:**
Dywedodd y Cyng Catherine Jones nad yw'r grŵp i gyd wedi llwyddo i gwrdd eto ond mae hi wedi bod yn edrych ar yr arferai gorau ac yn cysylltu CSDd. Roedd ychydig o syniadau a drafodwyd yn defnyddio etholiadau Mai 2021 i ddosbarthu gwybodaeth ynghylch yr ymgynghoriad os yn bosibl (Bydd Clerc y dref yn ymchwilio i hyn) Gellid hefyd defnyddio cylchgrawn 'Clwyd Connection' hefyd ar gyfer cyhoeddusrwydd yn ogystal â defnyddio'r hysbysfwrdd i gynghori'r cyhoedd.

**247 Darlithoedd Treftadaeth 2021**
Penderfynodd y Cynghorwyr tref ohirio'r darlithoedd a thrafod y posibilrwydd o'u cael yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn ym mis Chwefror.

**248 'Buttermarket'**
Dywedodd Clerc y Dref y bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Tachwedd gan na dderbyniwyd y manylion gan Amgueddfa Dinbych, Archifau Dinbych & Grŵp Cynefin. Bydd Clerc y Dref yn cysylltu â'r grŵp Amgueddfa i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eu lleoliad presennol a'u bwriadau yn symud ymlaen.

**249 Profi gwifren a bollt catenary & Llen Golau.**
Bydd profion yn digwydd yn ystod yr wythnosau nesaf. Dywedodd Clerc y Dref oherwydd gwaith parhaus presennol o amgylch Gwesty'r Goron y bydd y Llen Golau yn mynd cyn belled ag Alton Murphy sy'n hirach na'r llynedd ond yn fyrrach na'r blynyddoedd blaenorol.

**250 Neuadd y Dref**
Dywedodd Clerc y Dref ei fod newydd dderbyn ateb gan Tom Booty. Dywedodd hyn for CSDd yn edrych ar Ebrill 2022 fel dyddiad trosglwyddo asedau a bydd yn anelu at gael CLG yn barod erbyn Ebrill 2021.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 8.20yh.

Arwyddwyd:................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...............................